**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am trwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 1 Gorffennaf 2021**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadair)
Melody Chapman, Huw Davies, John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Rachael Madeley Davies, Emlyn Roberts a Claire Williams

**Trwy Wahoddiad:** Yr Athro Christianne Glossop OBE, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, Llywodraeth Cymru
Rhys Pugh, Llywodraeth Cymru

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

**I groesawu'r Athro Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru**

Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Christianne Glossop a roddodd ddiweddariad llawn gwybodaeth i'r Bwrdd ynghylch materion cyfoes a gwaith Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) gan roi sylw i Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, yr awyrgylch ôl-Brexit a gwaith parhaus yr OCVO.

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i wythfed cyfarfod ffurfiol y Bwrdd i gael ei gynnal yn rhithiol oddi ar y pandemig Coronafeirws (Covid-19).

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol rhithiol y bu'n eu mynychu:

12 Mai 2021 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghyfarfod Llywodraethu Chwarterol HCC / Llywodraeth Cymru.

18 Mai 2021 – Cyfarfod o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

1 Mehefin 2021 – Cyfarfod Pwyllgor Cynghori ar Farchnata HCC

3 Mehefin 2021 – Diweddariad Timau Bwrdd HCC.

11 Mehefin 2021 – Cyfarfod gyda Phrif Weithredwr AHDB, Ken Boyns, a chyfarfod rhagarweiniol wedyn gydag Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.

16 Mehefin 2021 – Cyfarfod Grŵp Iechyd a Lles Anifeiliaid Cnoi Cil.

17 Mehefin 2021 – Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr â Swyddogion Llywodraeth Cymru, Mark Alexander a Maria Richards, i drafod trefniadau llywodraethiant HCC.

21 Mehefin 2021 – Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr â chynrychiolwyr AHDB i drafod Cynllun Strategaeth Amgylcheddol AHDB.

28 Mehefin 2021 – Bu gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfarfod rhithiol gyda Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig yn Senedd Cymru.

Parhaodd y cyfarfodydd dal-i-fyny rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr drwy Teams.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod gan yr Aelodau Bwrdd Gareth Wynn Davies a Prys Morgan, ynghyd â Maria Richards o Lywodraeth Cymru.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 6 Mai 2021 (HCC 1005)**

Cymerwyd cofnodion y cyfarfod o’r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 6 Mai 2021 fel y'u darllenwyd, cawsant eu derbyn gan y Bwrdd a’u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

-

6. **Adroddiadau HCC**

a. Gweithgareddau (HCC 1006)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan y Pwyllgor Gwaith.

***Cyfathrebu***

*Lansio Samplu Cig Eidion HCC / Oritain*

Cafodd rhaglen samplu Cig Eidion HCC / Oritain ei lansio ym mis Mai 2021, a chafwyd sylw da yn y wasg fasnachol.

*Sioe Frenhinol Rithwir Cymru 2021*

Roedd trefniadau ar y gweill er mwyn i HCC gymryd rhan yn yr uchod, gan gynnwys cyfraniad fideo gan y Cadeirydd. Byddai'r cyfraniad yn ymdrin â Chynaliadwyedd, Masnach a Chytundebau Masnach Rydd. Roedd yr Adran Gyfathrebu hefyd yn ymgysylltu â swyddfa'r Gweinidog ynghylch cyfraniad fideo ganddi yn ystod yr hyn a fyddai'n dderbyniad brecwast HCC fel arfer.

*Cynhadledd HCC 2021*

Nodwyd bod Diana Rodgers, Dietegydd a Maethegydd, wedi cadarnhau ei bod ar gael fel siaradwr allweddol ac y byddai'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd ac iechyd.

Roedd trefniadau ar y gweill gyda'r Adran Gyfathrebu a oedd yn edrych ar opsiynau ar gyfer cynnal cynhadledd rithwir a ffisegol.

***Datblygu'r Diwydiant a'r Rhaglen Datblygu Cig Coch***

*RamCompare*

Dywedodd Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau’r Diwydiant fod dwy fferm yng Nghymru wedi bod yn llwyddiannus yn y broses recriwtio i ymuno â thrydydd cam y cynllun RamCompare a ariennir ar y cyd, sef Alwyn Nutting sy’n ffermio defaid a buchod sugno yng Nglasgoed ger y Drenewydd a Stephen a Louise Abberley, sy'n rhedeg fferm ddefaid yn Aberhonddu sy'n cynnwys diadelloedd pedigri Texel a Wyneblas Caerlŷr â chofnodion perfformiad.

*GrassCheckGB*

Nodwyd bod HCC, yn barod ar gyfer tymor pori Blwyddyn 3 gyda GrassCheckGB, wedi comisiynu adolygiad o gynnydd y naw fferm gig eidion a defaid yng Nghymru a oedd yn rhan o'r prosiect. Cafodd y gwaith hwn ei gwblhau a chafwyd adroddiad terfynol. Byddai'r adroddiad yn helpu i gefnogi'r allbwn ar gyfer Blwyddyn 3 a byddai hefyd yn nodi gwelliant posibl ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol. Byddai HCC yn cydweithredu â AHDB a QMS ynghylch cam nesaf y prosiect hwn.

*Y Prosiect Datblygu Cig Coch*

Roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer prosiect Ansawdd Cig Oen Cymru (WLMQ) ar gyfer digwyddiadau panel blasu defnyddwyr Treial 2 a fyddai’n cael eu cynnal yn ystod misoedd Awst a Medi 2021.

Nodwyd y byddai prosiect WLMQ ar gyfer 2021 / 2022 yn asesu natur dymhorol (casgliad samplau Mai, Awst, Tachwedd a Chwefror), rhywedd ŵyn (ŵyn benyw, ŵyn hwrdd ac ŵyn wedi'u hysbaddu), a chyfradd twf yr ŵyn. Roedd pum fferm wedi'u nodi gan y lladd-dai dan sylw i ddarparu ŵyn tymor newydd cynnar ar gyfer y gwaith.

***<u>Datblygu'r Farchnad</u>***

*<u>Adnodd Addysgol HCC</u>*

Yn ystod y cyfnod, cwblhaodd HCC y gwaith o gynhyrchu llyfryn i'w ddefnyddio gan fyfyrwyr TGAU sy'n astudio modiwlau bwyd ac amaethyddiaeth. Mae gan wefan Masnach HCC borth Addysg pwrpasol i'w ddefnyddio gan athrawon a darlithwyr yn ogystal ag ar gyfer ymchwil disgyblion a myfyrwyr. Roedd cynnwys yr adran hon yn cael ei adnewyddu a châi ei ddiweddaru'n barhaus yn ôl yr angen. Roedd cynllunio ar y gweill ar gyfer lansiad cyfryngol o'r adnoddau hyn yn yr hydref.

*<u>Caffael Cig Coch Cymru / Cyrff Cyhoeddus</u>*

Parhaodd HCC i ymgysylltu â rheolwyr caffael a rheolwyr arlwyo Awdurdodau Lleol gyda'r bwriad o gynorthwyo yn y gwaith o wneud caffael cig coch o Gymru yn haws.

Trefnwyd cyfarfodydd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Arlwyo Awdurdodau Lleol Cymru dros yr wythnosau nesaf.

*<u>Mân-werthu a'r Gwasanaeth bwyd</u>*

Parhaodd Adran Datblygu'r Farchnad i ymgysylltu'n rheolaidd â phroseswyr cig coch Cymru i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y sector gwasanaeth bwyd a mân-werthu.

b) <u>I dderbyn cyflwyniad am Ymgyrch arfaethedig Cig Eidion Cymru PGI 2021 / 2022</u>

Rhoddodd Rheolwr Datblygu'r Farchnad drosolwg o'r uchod (ar gael drwy Sharepoint / Gwybodaeth / Cyflwyniadau / Ymgyrchoedd 2021 / 01.07.21 – Cyflwyniad Ymgyrchoedd Cig Oen a Chig Eidion 21 -22.

c. <u>Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1007)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd.

d. <u>I dderbyn Strategaeth Gyfathrebu mewn perthynas â Chynaliadwyedd (HCC 1008)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a'i gyflwyno gan y Rheolwr Cyfathrebu.

Cafodd y Strategaeth Gyfathrebu dderbyniad da a chafodd ei chymeradwyo gan y Bwrdd.

e. <u>Digwyddiadau i ddod (HCC 1009)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd.

7. **<u>Pwyllgorau HCC</u>**

***<u>Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg</u>***

a. <u>I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 9 Mehefin 2021 (HCC 1010)</u>

Cymerwyd y cofnodion fel y'u darllenwyd a'u defnyddio fel adroddiad heb unrhyw broblemau'n codi, a chawsant eu mabwysiadu gan y Bwrdd.

b) <u>I gael crynodeb o'r pwyntiau allweddol yn y Datganiadau Ariannol 2020 / 2021</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a'i gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

c. <u>I dderbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021 / 2021</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a'i gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Cadarnhaodd y Bwrdd (Cyfarwyddwyr Anweithredol) nad oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol na newydd o ran eu datganiadau nad oedd yr Archwilwyr yn ymwybodol ohonynt.

Cafodd y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2020 / 2021 eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

***<u>Gweithgor Iechyd a Lles Diadelloedd a Buchesi (FHH&WW)</u>***

d. <u>I fabwysiadu cofnodion cyfarfod FHH&WG a gynhaliwyd ddydd Mercher 28 Ebrill 2021 (HCC 1013)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

***<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu</u>***

e. I fabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd Ddydd Iau 6 Mai 2021 (HCC 1014)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

***Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata***

f. I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Mawrth 1 Mehefin 2021 (HCC 1015)

Cymerwyd y cofnodion fel y'u darllenwyd a'u defnyddio fel adroddiad heb unrhyw broblemau'n codi, a chawsant eu mabwysiadu gan y Bwrdd.

***Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)***

g. I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion drafft o gyfarfod y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE) a gynhaliwyd ddydd Mercher 2 Mehefin 2021 (HCC1016)

Cymerwyd y cofnodion fel y'u darllenwyd a'u defnyddio fel adroddiad heb unrhyw broblemau'n codi, a chawsant eu mabwysiadu gan y Bwrdd.

h. I dderbyn a mabwysiadu Strategaeth Ymchwil a Datblygu HCC (HCC 1017)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a'i chyflwyno gan Reolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant

Nodwyd mai un o ddyletswyddau allweddol y Pwyllgor oedd trafod ac adolygu strategaeth i hwyluso cynhyrchu ymchwil, technolegau a gwybodaeth newydd o fewn y sector cig coch yng Nghymru.

Gwnaed adolygiad yn ystod 2020. Cynigiodd y Pwyllgor i'r Bwrdd taw'r pwyntiau ffocws strategol newydd i HCC ar gyfer Ymchwil a Datblygu fyddai'r canlynol:

- Rheoli Tir Glas
- Yr Amgylchedd Amaethyddol
- Defnyddio gwrthfiotigau ac ymwrthedd iddynt
- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Maeth Da Byw
- Gwelliant Genetig
- Cefnogi arloesedd mewn prosesu

Nododd y Bwrdd fod y Strategaeth yn gynhwysfawr ond y gellid ei chryfhau gyda rhywfaint o gynhwysiant a mireinio.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylid ychwanegu “Priddoedd” i roi “Rheoli Tir Glas a Phriddoedd” yn ogystal ag agwedd Maeth / Diet Dynol. Roedd consensws bod angen mireinio rhywfaint ar eiriad y ddogfen er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau'n cyd-fynd â'r strategaethau arfaethedig. Roedd hyn yn arbennig o wir am y maes Cynaliadwyedd a ddylai fod yn fwy amlwg fel thema graidd.

Gofynnid i'r Pwyllgor Ymchwil a Datblygu adolygu argymhellion y Bwrdd cyn cyflwyno dogfen ddiwygiedig i’r Bwrdd ei chymeradwyo.

**<u>Papurau er gwybodaeth</u>**

8. a. <u>Nifer arfaethedig yr Ŵyn yn Cael eu Geni yn 2021 (HCC 1018)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd.

b) <u>Diwydiant Gwasanaeth Bwyd Cig Coch y DG (HCC 1019)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd.

Bu effaith sylweddol ar y diwydiant oherwydd pandemig Covid-19 gyda newidiadau wedi’u hachosi i gadwyni cyflenwi bwyd, a thagfeydd mewn gwaith ar y fferm, prosesu, trafnidiaeth a logisteg, yn ogystal â newidiadau yn y galw gan ddefnyddwyr, yn bennaf i fân-werthu.

Nodwyd pwyntiau cloi'r adroddiad:

- Oherwydd maint y diwydiant gwasanaeth bwyd sy'n werth biliynau o bunnoedd, ac sy'n amrywiol oddi mewn, roedd yn anodd mesur maint a gwerth y bwyd a'r ddiod a werthir (yn enwedig o ran cig coch)
- Yn 2019, roedd tua 15% o werthiant cig oen Prydain Fawr (o ran cyfaint) drwy’r sector bwyta allan; roedd y sector ychydig yn bwysicach i gig eidion ac yn cyfrif am 21% o'r gwerthiant.
- Roedd stêcs cig eidion yn cael eu gweini gan amlaf mewn mannau fel tafarndai a bwytai, a phan gafodd y rhain eu cau yn ystod cyfnod cloi cyntaf Covid-19 roedd effaith sylweddol ar werth carcasau cig eidion yn lladd-dai'r DG.
- Mae defnyddwyr yng Nghymru'n dibynnu i raddau helaeth ar achlysuron ar gyfer bwyta allan. Oherwydd hyn, mae canran uwch o fwyta allan adeg achlysuron yng Nghymru nag ym Mhrydain yn gyffredinol, ac mae hyn wedi bod yn hybu twf yn y diwydiant Oddi Cartref (OC).

- Mae achlysuron dau-berson yn hybu twf yn y sector OC yng Nghymru ac yn cyfrif am 43% o achlysuron lluniaeth – mewn cymhariaeth â dim ond 27% o achlysuron ym Mhrydain yn ystod 2019.
- Mae cig oen yn ddibynnol iawn ar brif brydau, gyda dros 98% o achlysuron cig oen yn brif brydau. Y mannau bwyta achlysurol a chyflym oedd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r gwariant ar gig oen yn ystod 2019.
- Wrth i nifer yr achlysuron o brydau oddi cartref gynyddu, mae'n anochel y bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr achlysuron yn y cartref.
- Mae ffigurau cyfunol gan Kantar am brydau Oddi Cartref a phrydau parod yn Chwefror 2021 yn datgelu bod gwerthiannau wedi gostwng 8% mewn blwyddyn. Felly, rhagwelir y byddai gwerthiannau gwasanaeth bwyd yn dechrau adfer yn ystod ail hanner 2021, ond nid i'r hyn oeddent cyn Covid.
- Dywedodd nifer sylweddol o bobl fod Covid-19 wedi gwanhau eu sefyllfa ariannol, ond dywedodd eraill ei fod wedi gwella. Ni fyddai adferiad yr un peth i bob grŵp o siopwyr - a elwir yn 'adferiad siâp K'.
- Am y bydd galw mawr am achlysuron cymdeithasol yn dilyn y cyfnod clo diweddaraf, mae cyfle da i gig oen berfformio'n dda fel rhan o brif bryd ar gyfer 'achlysur' neu at ddibenion cymdeithasol.
- Mae angen gwneud yn siŵr fod labeli gwlad y tarddiad ar gael i ddefnyddwyr yn y diwydiant gwasanaeth bwyd er mwyn gwahaniaethu rhwng cynnyrch a dyfir gartref a chynnyrch a fewnforir, gan ganiatáu i ddefnyddwyr ddewis cig coch o Gymru os dymunant.
- Roedd optimistiaeth ynghylch adferiad economi'r DG, ond mae'r amgylchiadau presennol yn parhau i fod ymhell o fod yn 'normal', ac felly roedd yn anodd rhagweld ymddygiad defnyddwyr wrth i'r diwydiant gwasanaethau bwyd ailagor unwaith eto.
- Mae ymddygiad ac agweddau defnyddwyr wedi newid ers dechrau'r pandemig wrth i siopwyr fod yn fwy pryderus ynghylch tarddiad, cynaliadwyedd, lles anifeiliaid ac iechyd. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd allweddol i Gig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI arwain y ffordd o ran dangos sut y gellir cynhyrchu cynhyrchion o ansawdd uchel mewn system gynaliadwy ag allyriadau isel

9. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

<u>Cytundebau Masnach Rydd (FTAau)</u>

Dywedodd y Rheolwr Cyfathrebu fod HCC wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg mewn ymateb i'r cytundeb masnach drafft diweddar rhwng y DG ac Awstralia. Amlygodd y datganiad bryderon y gallai'r cytundeb arwain ar unwaith at gynnydd bron i ddeg gwaith yn y mewnforion di-dariff o gig eidion o Awstralia a'r posibilrwydd o ddyblu mewnforion cig oen yn ystod blwyddyn gyntaf y cytundeb. Cododd y Bwrdd bryderon y byddai Bargen Fasnach Awstralia a FTAau posibl eraill yn cael effaith fawr ar ddiwydiant cig coch y DG.

Dywedodd y Prif Weithredwr er nad oedd HCC yn sefydliad lobïo, roedd mewn sefyllfa i ddarparu gwybodaeth a data ar faterion amserol a darparu tystiolaeth pan fo angen i wleidyddion / pwyllgorau perthnasol, Swyddogion y Llywodraeth, ymgynghoriadau a rhanddeiliaid.

Cytunodd y Bwrdd y byddai papur gwybodaeth / briffio HCC ar FTAau y gellid ei rannu â'r diwydiant o fudd; gan amlygu data o’r sefyllfa flaenorol (tariffau Awstralia a mesurau allforio i’r DG), nodau ac effaith bosibl y cytundeb, manylion ynghylch safonau a lles a chytundebau masnach posibl yn y dyfodol gyda gwledydd fel Seland Newydd, UDA, Canada, India a Mecsico   Gellid diweddaru ac addasu'r papur yn barhaus pan fyddai newidiadau'n digwydd yn y maes hwn.

Cyfathrebu â Thalwyr yr Ardoll / Rhanddeiliaid

Dywedodd y Prif Weithredwr fod datblygiad wedi dechrau ar gyfer rhaglen ymgysylltu â thalwyr Ardoll / rhanddeiliaid yn ystod misoedd yr hydref yn amodol ar gyfyngiadau Covid-19. Byddai hyn yn cael ei amseru i ddigwydd cyn dechrau cylch cynllunio HCC ym mis Rhagfyr 2021 a byddai’n rhoi cyfle i ddeall yn well bryderon talwyr yr Ardoll a’u blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol fel bod modd cynnwys themâu craidd sy’n dod i’r amlwg yn strategaethau a gweithgareddau HCC. Byddai’r ymgysylltu hefyd yn gyfle i ledaenu gwaith cyfredol a mewnwelediad HCC mewn perthynas â'r diwydiant cig coch.

10. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 2 Medi 2021 [yr amser i'w gadarnhau]
Diweddaru’r Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Dydd Iau 7 Hydref am 9.30am

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**